GIG CYMRU NHS WALES | Rhaglen Delweddu Genedlaethol National Imaging Programme

# Cylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol Ch3 2023-24

**Croeso i'r trydydd rhifyn o Gylchlythyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol!**

Fel y soniwyd yn y rhifyn blaenorol, ar 1 Hydref 2023, ymunodd y Rhaglen Delweddu Genedlaethol â'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal wedi'i Gynllunio sy'n cwmpasu Gofal Wedi'i Gynllunio, Canser a Diagnosteg. Bydd gwaith i gwblhau'r strwythur llywodraethu yn parhau i mewn i Chwarter 4, gyda rhai camau gweithredu allweddol eisoes wedi'u cyflawni:

- Mae'r broses recriwtio ar gyfer Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Rhaglen Diagnosteg Genedlaethol wedi'i chwblhau, gyda Claire Nelson wedi'i chontractio'n barhaol ar gyfer y rôl – rydym yn edrych ymlaen yn fawr at barhau i weithio gyda Claire yn y misoedd i ddod!

- Mae'r Bwrdd Strategaeth y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIPSB) a'r Grŵp Gwasanaethau Hanfodol Delweddu (IESG) wedi'u tynnu'n ôl yn ffurfiol, i'w disodli gan Grŵp Strategaeth Genedlaethol y Rhaglen Delweddu (NIPSG) – sy'n adrodd yn uniongyrchol i'r Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol. Mae Cylch Gorchwyl y grŵp newydd hwn wrthi'n cael ei gwblhau ond bydd y grŵp yn cyfarfod yn fisol drwy gydol y flwyddyn.

Hoffem achub ar y cyfle hwn i ddiolch yn fawr i aelodau NIPSB ac IESG, am y cyfraniad y maent wedi'i wneud i'r

# National Imaging Programme Newsletter Q3 2023-24

**Welcome to the seventh edition of the National Imaging Programme Newsletter!**

As mentioned in the previous edition, on 1st October 2023, the National Imaging Programme joined the Strategic Programme for Planned Care which covers Planned Care Cancer and Diagnostics. Work to finalise the governance structure will continue into Quarter 4, with some key actions already undertaken:

- Recruitment for the Assistant Director of the National Diagnostics Programme is complete, with Claire Nelson contracted permanently into the role – we are very much looking forward to continuing working with Claire in the coming months!

- The National Imaging Programme Strategy Board (NIPSB) and Imaging Essential Services Group (IESG) have been formally stood down, to be replaced with the National Imaging Programme Strategy Group (NIPSG) – reporting directly into the National Diagnostic Board. The Terms of Reference for this new group are currently being finalised but the group will meet monthly throughout the year.

We would like to take this opportunity to say a big thank you to members of both NIPSB and IESG, for the

rhaglen dros y blynyddoedd. Hoffem roi sylw arbennig i'r Cadeiryddion am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth –

- Cadeirydd NIPSB, Steve Moore, Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ac Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer Delweddu
- Cyd-gadeiryddion IESG Dr Sian Phillips a Dr Phillip Wardle.

Ochr yn ochr â pharhad prosiectau ffrwd gwaith, cynhaliodd y Rhaglen Delweddu Genedlaethol (NIP) ei Chynhadledd Flynyddol gyntaf ar 8 Tachwedd hefyd. Gweithiodd y tîm yn galed i ddod o hyd i amrywiaeth o siaradwyr ac arddangoswyr, ac roedd wrth ei fodd bod y diwrnod yn llwyddiant ysgubol! Ceir rhagor o fanylion yn yr erthygl nodwedd isod.

Gobeithio y byddwch yn mwynhau ein trydydd cylchlythyr yn 2023-24! Os hoffech gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu, neu os oes gennych ymholiadau cyffredinol, e-bostiwch NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

contribution they have made to the programme over the years. A special mention to the Chairs for their commitment and support –

- Chair of NIPSB, Steve Moore, Chief Executive Hywel Dda University Health Board and Senior Responsible Owner for Imaging
- Joint Chairs of IESG Dr Sian Phillips and Dr Phillip Wardle.

Alongside continuation of workstream projects, the National Imaging Programme (NIP) also hosted its inaugural Annual Conference on 8th November. The team worked hard to source a variety of speakers and exhibitors and were delighted the day was a huge success! Further detail included in the feature article below.

We hope you enjoy our third newsletter of 2023-24! If you would like to be added to the circulation list, or have general enquiries, please email NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

# Diweddariadau ar y Ffrydiau Gwaith

# Workstream Updates

## Gweithlu ac Addysg

**Cyflawniadau Allweddol Ch3 2023/24**

- Cyfarfu cynrychiolwyr y Rhaglen Delweddu Genedlaethol a Chymdeithas y Radiograffwyr (SoR) ag aelodau o Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) i rannu gofynion y proffesiwn radiograffeg fel rhan o broses Ymgynghori ar Brentisiaeth Gradd AaGIC.
- Cwblhawyd mewnbwn i brosiect codio ESR ar gyfer gwyddonwyr gofal iechyd, gyda mewnbwn ad hoc yn unig gan y Rhaglen Delweddu Genedlaethol fel y rhagwelir arbenigwyr pwnc ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith hwn yn hwyluso delweddu'r gweithlu Radioleg yn gywir ac yn symlach ledled Cymru ac yn

## Workforce and Education

**Q3 2023/24 Key Achievements**

- NIP and Society of Radiographers (SoR) representatives met with members of Health Education and Improvement Wales (HEIW) to share the requirements of the radiography profession as part of the HEIW Degree Apprenticeship Consultation process.
- Input into ESR coding project for healthcare scientists has been completed, with only ad-hoc input from NIP as subject matter experts envisioned for the future. This work facilitates the accurate and simplified visualisation of the Radiology workforce across Wales and assists with workforce planning.

helpu i gynllunio'r gweithlu.

- Grŵp Trawsnewid y Gweithlu Delweddu ac Addysg (IWETG) i weithio gydag AaGIC i gefnogi'r camau gweithredu a nodwyd yn ei gyhoeddiad 'Foundation and future vision for practice based learning in Diagnostic Radiography and Imaging across Wales'.

- Cyflwynwyd sylwadau ychwanegol i AaGIC i'w hystyried yn y Cynllun Gweithlu Diagnostig drafft.

- Cychwynnwyd prosiect Gwybodaeth am y Gweithlu Radioleg, a chynhaliwyd trafodaethau personol ag RSMs ac Arweinwyr Clinigol.

- Mae gwaith ar y gweill i gychwyn prosiect ffurfiol gyda'r nod o ddatblygu gweithlu meddygol Clinigwr y Fron cynaliadwy o fewn Gwasanaethau Delweddu'r Fron.

**Grŵp Gweithwyr Cefnogi Delweddu (ISWG)**

- Adroddiad Cam Terfynol a Chynllun Cam ar gyfer Cam 2 wedi'u cyflwyno i IWETG, a'u cytuno ganddynt.

- Mae disgrifiadau swydd Cymru gyfan ar gyfer Gweithwyr Cymorth Clinigol Radioleg (RCSW) Band 2 a Band 3 wedi'u cwblhau, wedi mynd drwy'r broses baru ac erbyn hyn maent yn barod i'w gweithredu ledled Cymru. Mae gwaith ar y gweill i gefnogi'r broses o gyfathrebu'r disgrifiadau swydd Cymru Gyfan hyn i bob Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd yng Nghymru.

- Mae adolygiad o adnoddau presennol i gefnogi cymhwyster Gweithiwr Cymorth Clinigol Lefel 3 yn mynd rhagddo, ac mae'r Fframwaith yn cytuno i asesu'r rhai a ddatblygwyd hyd yma er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r amcanion dysgu gofynnol.

- Mae crynodeb gweledol o rolau RCSW wedi'i gwblhau a'i gyfieithu i'r Gymraeg. Gyda'r nod o gynyddu ymwybyddiaeth

- The Imaging Workforce and Education Transformation Group (IWETG) to work with HEIW to support actions identified within their publication 'Foundation and future vision for practice based learning in Diagnostic Radiography and Imaging across Wales'.

- Additional comments were provided to HEIW for consideration within the draft Diagnostic Workforce Plan.

- Radiology Workforce Intelligence project initiated, with in-person discussions held with RSMs and Clinical Leads.

- Work to commence a formal project aimed at developing a sustainable Breast Clinician medical workforce within Breast Imaging Services is underway.

**Imaging Support Worker Group (ISWG)**

- End Stage Report and Stage Plan for Stage 2 submitted to, and agreed by, IWETG.

- All-Wales job descriptions for Band 2 and Band 3 Radiology Clinical Support Workers (RCSW) have been completed, undergone the matching process and are now ready for implementation across Wales. Work is underway to support the communication of these All-Wales JDs to all Health Boards and Trusts in Wales.

- Review of current resources to support the Level 3 Clinical Support Worker qualification is underway, with the AWIQF agreeing to assess those developed to date to ensure alignment with the required learning objectives.

- A visual summary of RCSW roles has been completed and translated into Welsh. Aiming to increase awareness and understanding of these roles, these documents have been shared with HEIW for inclusion within the Careersville website.

- Review of current Band 4 RCSW line manager job descriptions and supporting

a dealltwriaeth o'r rolau hyn, mae'r dogfennau hyn wedi'u rhannu ag AaGIC i'w cynnwys ar wefan Careersville.

- Cwblhawyd adolygiad o ddisgrifiadau swydd rheolwr llinell Band 4 RCSW cyfredol a'r gofynion ategol. Cynhaliwyd grŵp ffocws a oedd yn cynnwys staff yn y rolau hyn, AaGIC ac Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru (NIAW) i hwyluso dadansoddiad SWOT gyda phapur yn nodi dysgu dilynol a roddwyd i'r ISWG.

- Cytunwyd ar y teitl Cymru gyfan, sef Gweithiwr Cymorth Clinigol Arweiniol Radioleg, ar gyfer y rôl rheoli llinell hon, a chytunwyd ar ddisgrifiad swydd safonol a dogfen dechnegol ategol, a'u cyflwyno i arweinydd gwerthuso swyddi Cymru Gyfan i ddechrau prosesau paru.

- Gwahoddwyd Lisa Oyler, Uwch Reolwr Prosiect y Rhaglen Delweddu Genedlaethol i gyflwyno gwaith yr ISWG yn Niwrnod Astudio a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cyngor Cymru SoR.

Mae'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol yn croesawu penodiad Gill Lingwood i rôl Rheolwr y Rhaglen ar gyfer ffrwd waith y Gweithlu ac Addysg. Darllenwch fwy am Gill yn ein herthygl 'Croeso i'r Tîm!' isod.

**I gael rhagor o wybodaeth am Ffrwd Waith y Gweithlu ac Addysg, e-bostiwch** Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk

requirements completed. A focus group consisting of staff in these roles, HEIW and National Imaging Academy Wales (NIAW) was held to facilitate a SWOT analysis with a paper detailing subsequent learning supplied to the ISWG.

- All-Wales title of Lead Radiology Clinical Support Worker was agreed for this line management role, with standardised job description and supporting technical document agreed and submitted to the All-Wales job evaluation lead to commence matching processes.

- Lisa Oyler, the NIP Senior Project Manager was invited to present the work of the ISWG at the SoR Welsh Council Study Day and AGM.

NIP welcomes the appointment of Gill Lingwood to the role of Programme Manager for the Workforce and Education workstream. Read more about Gill in our 'Welcome to the Team!' feature below.

**For further information on the Workforce and Education Workstream, please contact** Gill.Lingwood2@wales.nhs.uk

## Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Defnyddwyr

**Cyflawniadau Allweddol Ch3 2023/24**

- Mae Fforwm Ansawdd Delweddu Cymru Gyfan (AWIQF) yn parhau i gyfarfod bob deufis.

- Mae gwaith wedi bod yn mynd rhagddo i gynllunio ar gyfer proses Sicrhau Ansawdd Cymru yn y dyfodol:

## Quality, Safety and User Experience

**Q3 2023/24 Key Achievements**

- All Wales Imaging Quality Forum (AWIQF) continues to meet bi-monthly.

- Work has been ongoing to plan for future Quality Assurance process for Wales:

- Royal College of Radiologists (RCR)/College of Radiographers (CoR) presented

- Cyflwynodd Coleg Brenhinol y Radiolegwyr (RCR)/Coleg y Radiograffwyr (CoR) eu hachos dros weithio i'w Safon Ansawdd ar 6 Medi 2023.

- Cyflwynodd Gwasanaeth Achredu'r Deyrnas Unedig (UKAS) ei achos dros Achredu ar 4 Hydref.

- Anfonwyd Gwerthusiad Opsiynau Ansawdd Radioleg Cymru Gyfan i AWIQF.

- Penderfyniad i geisio gweithio tuag at Safon Ansawdd y Colegau, papur i'w gyflwyno i'r Bwrdd Diagnostig ym mis Ionawr ar gyfer craffu pellach a chynllunio'r camau nesaf.

- Mae'r ffrwd waith wedi parhau i gwmpasu deallusrwydd artiffisial o fewn Radioleg yng Nghymru, gan gydweithio â Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cwblhawyd y papur ym mis Tachwedd 2023.

- Cafwyd adborth gan Fyrddau Iechyd i deilwra i ba gyfeiriad yr aiff prosiect deallusrwydd artiffisial arall, ac mae'r PID yn ei ddyddiau cynnar.

- Mae dogfen diweddaru'r Canllawiau Uwchsain wedi'i dychwelyd gan Bwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru (WSAC). Fodd bynnag, wrth aros am arweiniad gan WSAC, mae'r papur cychwynnol wedi'i ddosbarthu drwy grŵp canllaw Uwchsain.

- Mae 4 Grŵp Ansawdd Cymru Gyfan ar waith – CT, Uwchsain, MRI a Radiograffwyr Adrodd:

    - Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Ansawdd CT yn rhithwir ar 4 Hydref 2023.
    - Cynhaliwyd cyfarfod cyntaf Grŵp Ansawdd Uwchsain yn rhithwir ar 22 Tachwedd.
    - Cynhaliwyd trydydd grŵp Ansawdd MRI ar 6 Rhagfyr.
    - Cynhelir cyfarfod cychwynnol Grŵp Ansawdd Radiograffwyr Adrodd ar 7 Chwefror 2024.

their case for working to their Quality Standard on 6th September 2023.

- United Kingdom Accreditation Service (UKAS) presented their case for Accreditation on the 4th of October.

- All Wales Radiology Quality Options Appraisal sent through to AWIQF.

- Decision to pursue working towards Colleges Quality Standard, paper to go to Diagnostic Board in January for further scrutiny and planning next steps.

- Workstream has continued to scope AI within Radiology in Wales, collaborating with Welsh Government and Public Health Wales. The paper was finalised in November 2023.

- Feedback has been received from HBs to tailor which direction a further AI project will go, the PID is in its infancy.

- Ultrasound Guidance update document has returned from the Welsh Scientific Advisory Committee (WSAC). Awaiting steer from WSAC, however the initial paper has been circulated through US guidance group.

- 4 All Wales Quality Groups are up and running – CT, Ultrasound MRI and Reporting Radiographers:

    - The first CT Quality Group meeting took place virtually on 4th October 2023.
    - The first US Quality Group meeting took place virtually on 22nd November.
    - The third MRI Quality group took place on 6th December.
    - The initial Reporting Radiographer Quality Group meeting will be held on the 7th of February 2024.

- Continued regular meetings with Life Sciences Hub.

- Regular Quality meetings with

- Cyfarfodydd rheolaidd parhaus gyda Hwb Gwyddorau Bywyd.

- Cyfarfodydd Ansawdd rheolaidd gyda'r Academi Delweddu. Fodd bynnag, mae'r Arweinydd Ansawdd wedi symud ymlaen i rôl newydd erbyn hyn, felly bydd hyn yn digwydd eto pan fydd yr aelod newydd o staff yn cael ei benodi.

- Cwblhawyd cam cyntaf y prosiect Atgyfeirwyr Anfeddygol (NMR):

  - Mae drafft cyntaf dull Cymru Gyfan at NMR wedi'i ddosbarthu o amgylch grwpiau proffesiynol ar gyfer sylwadau cychwynnol.

**I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad Cleifion, e-bostiwch** James.Triscott2@wales.nhs.uk

Imaging Academy, however Quality Lead has now moved on to a new role so this will reprise when the new staff member is appointed.

- First phase of Non-Medical Referrers (NMR) project completed:

  - The first draft of an All-Wales approach to NMR has been distributed around professional groups for initial comments.

**For further information on the Quality, Safety and user Experience Workstream, please contact** James.Triscott2@wales.nhs.uk

## Cynllunio Adnoddau Strategol

**Cyflawniadau Allweddol Ch3 2023/24**

**PROSIECT BLAENORIAETHU CYFALAF AC OFFER DELWEDDU GENEDLAETHOL (NIECP):**

- Canlyniadau Panel Adolygu Ffurfiol yn cael eu cyfleu i Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Diagnosteg Cenedlaethol a rhanddeiliaid allweddol eraill.

- Adborth gan y panel adolygu ffurfiol cyntaf wedi'i goladu, gyda diweddariadau cymeradwy wedi'u cynnwys yn y ffurflen werthuso, y broses adolygu a'r sgorio yn barod ar gyfer dechrau'r iteriad nesaf.

- Rhestr wedi'i blaenoriaethu o offer ar gyfer adnewyddu cyfalaf a ddefnyddiwyd i ddyrannu'r rownd ddiweddaraf o gyllid cyfalaf.

- Cyfarfod ffurfiol nesaf Panel Adolygu NIECP wedi'i drefnu ar gyfer 16 Ebrill 2024.

- Dosbarthwyd gohebiaeth i holl

## Strategic Resource Planning

**Q3 2023/24 Key Achievements**

**NATIONAL IMAGING EQUIPMENT AND CAPITAL PRIORITIES (NIECP) PROJECT:**

- Formal Review Panel outcomes communicated to Welsh Government, National Diagnostics Board and other key stakeholders.

- Feedback from first formal review panel collated, with approved updates incorporated into the evaluation form, review process and scoring in readiness for commencemnt of the next iteration.

- Prioritised list of equipment for capital replacement utilised to allocate most recent round of capital funding.

- Next formal NIECP Review Panel Meeting arranged for 16th April 2024.

- Communication circulated to all HB/Trust Equipment Champions

Hyrwyddwyr Offer y Bwrdd Iechyd/Ymddiriedolaeth yn eu hannog i gymeradwyo eu data a'r Gofrestr Asedau Cenedlaethol i ddechrau'r broses adolygu.

**PROSIECT GWYBODAETH BUSNES (BI) CAFFAEL SYSTEM GWYBODAETH RADIOLEG (RISP):**

- Sylwadau cychwynnol ar fetrigau perfformiad wedi'u casglu gan Aelodau'r NIPSB.
- Dangosfwrdd ystadegau enghreifftiol lefel uchel wedi'i dderbyn gan Soliton.
- Cyflwyniad i aelodau'r NIPSB ar 12 Hydref, yn amlinellu gofynion y prosiect BI ac yn amlygu metrigau perfformiad cychwynnol - dywedodd yr aelodau y byddai'n ddefnyddiol gweld pa adroddiadau a metrigau perfformiad a ddarparwyd gan Soliton yn Lloegr.
- Gofynnodd Prif Reolwr Prosiect RISP am wybodaeth a gofnodwyd gan Soliton a chyfarfod i drafod galluoedd ei system.
- Cyfarfod â chynrychiolwyr Soliton ar 5 Rhagfyr, dangosfyrddau enghreifftiol a metrigau adrodd heb eu darparu – rhagor o goladu data gan y Rhaglen Delweddu Genedlaethol ac RISP i ddatblygu'r dangosyddion perfformiad allweddol a'r gofynion adrodd ar gyfer y system RISP newydd. Bydd pob rhanddeiliad allweddol yn cael cyfle i gyfrannu at Ch4.

**I gael rhagor o wybodaeth am y Ffrwd Waith Cynllunio Adnoddau Strategol, e-bostiwch** [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

prompting them to sign off their data an the National Asset Register to commence the review process.

**RADIOLOGY INFORMATICS SYSTEM PROCUREMENT (RISP) BUSINESS INTELLIGENCE (BI) PROJECT:**

- Initial comments on performance metrics collated from NIPSB Members.
- High level example stats dashboard received from Soliton.
- Presentation to NIPSB members on 12th October, outlining requirements of the BI project and highlighting initial performance metrics – members fed back that it would be useful to see what reports and performance metrics were provided by Soliton in England.
- RISP Principal Project Manager requested reporting information from Soliton and meeting to discuss capabilities of their system.
- Meeting with Soliton representatives on 5th December, example dashboards and reporting metrics not provided – further data collation by NIP and RISP to develop the KPI's and reporting requirements for the new RISP system. All key stakeholders will have the opportunity to input in Q4.

**For further information on the Strategic Resource Planning Workstream, please contact** [Rachel.Howells6@wales.nhs.uk](mailto:Rachel.Howells6@wales.nhs.uk)

## Gwybodeg, Gwybodaeth a Deallusrwydd Busnes

Rhaglen Caffael System Gwybodeg Radioleg (RCSGR) Iechyd a Gofal Digidol Cymru (DHCW).

## Informatics, Information and Business Intelligence

Delivery of this workstream is managed via the Digital Health and Care Wales (DHCW) Radiology Informatics System Procurement (RISP) Programme.

# Croeso i'r Tîm Gill Lingwood! / Welcome to the Team Gill Lingwood!



Cymhwysodd Gill fel radiograffydd yn 2003 ac aeth ymlaen i wneud ei hastudiaethau ôl-raddedig mewn uwchsain meddygol gan gymhwyso yn 2009 fel Sonograffydd. Bu'n gweithio mewn Byrddau Iechyd yng Nghymru ac yn Lloegr, gan gynnwys cyfnod byr y tu allan i'r GIG yn gweithio fel arbenigwr cymwysiadau clinigol. Yn ystod y pandemig ymgymerodd â rhai modiwlau o'r cwrs rheoli MSc Gofal Iechyd gyda Phrifysgol Glasgow. Ei swydd ddiweddaraf oedd Radiograffydd Arolygol Arweiniol Safle, lle mae Gill yn teimlo ei bod wedi deall yn dda heriau'r gweithlu y mae adrannau Radioleg yn eu hwynebu ar hyn o bryd. Dywedodd Gill:

*"Rwy'n llawn cyffro i fod yn gweithio i'r Rhaglen Delweddu Genedlaethol. Mae cynorthwyo Arweinwyr Radioleg i hwyluso newidiadau cadarnhaol a buddiol yn eu gweithlu*

Gill qualified as a radiographer in 2003 and went on to undertake her post graduate studies in medical ultrasound qualifying in 2009 as a Sonographer. She has worked in Health Boards within both Wales and England including a brief stint outside of the NHS working as a clinical applications specialist. During the pandemic she undertook some modules from the MSc Healthcare management course with Glasgow University. Her most recent post was as a Site lead Superintendent Radiographer where Gill feels she grasped a good understanding of the current workforce challenges Radiology departments are currently facing. Gill commented:

*"I am excited to be working for the NIP. Assisting Radiology Leaders to facilitate positive and beneficial changes within their own workforce that are going to have a positive*

*eu hunain sy'n mynd i gael effaith gadarnhaol ar gleifion a staff, yn rhywbeth rwy'n teimlo'n gysylltiedig iawn ag ef."*

*impact on both patients and staff, is something I feel strongly aligned to."*

# Cynhadledd Flynyddol y Rhaglen Delweddu Genedlaethol 2023 / NIP Annual Conference 2023




Aeth dros 100 o gynrychiolwyr i Gynhadledd Flynyddol gyntaf y Rhaglen Delweddu Genedlaethol yn Stadiwm Dinas Caerdydd ddydd Mercher 8 Tachwedd, Diwrnod Radiograffeg y Byd 2023. Gweithiodd y tîm gyda phartner y digwyddiad, Academi Ddelweddu Genedlaethol Cymru, i ddatblygu a chyflwyno rhaglen brysur a fyddai'n dod â chydweithwyr clinigol a rhanddeiliaid allweddol o'r gymuned Ddelweddu ledled Cymru at ei gilydd. Cyflwynodd y gynhadledd amrywiaeth o siaradwyr, araith gyweirnod ysgogol a chymeradwy ar syrffed tosturi ac arddangosodd rywfaint o'r gwaith rhagorol sy'n digwydd mewn Adrannau Radioleg ledled Cymru. Yn bwysicaf oll, roedd y gynhadledd yn gyfle i gydweithwyr gwrdd wyneb yn wyneb ar ôl cyfnod hir a heriol, ac roedd yn amlwg cymaint roedd pawb yn gwerthfawrogi hyn drwy'r dydd. Cynhaliwyd arddangosfa yn cynnwys 15 o sefydliadau ochr yn ochr â'r gynhadledd, a ddenodd hefyd wyth noddwr o'r sectorau preifat ac

Over 100 delegates attended the inaugural National Imaging Programme Annual Conference at Cardiff City Stadium on Wednesday 8th November, World Radiography Day 2023. The team worked together with event partner, National Imaging Academy Wales, to develop and deliver a busy programme that would bring together clinical colleagues and key stakeholders from the Imaging community across Wales. The conference introduced a varied line up of speakers, a thought-provoking and well received keynote address on compassion fatigue and showcased some of the excellent work taking place in Radiology Departments across Wales. Most importantly, the conference provided an opportunity for colleagues to meet face to face after a long, challenging period, and it was evident how much this was appreciated throughout the day. An exhibition featuring 15 organisations ran alongside the

addysg, gan dalu am gyfran sylweddol o gostau'r digwyddiad.

Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan y rhai a oedd yn bresennol, gadawodd y cynadleddwyr wedi'u hysbrydoli, roeddent yn teimlo bod y diwrnod yn rhoi gwerth am eu hamser a dywedodd pawb a gwblhaodd adborth y byddent yn argymell digwyddiadau o'r rhaglen yn y dyfodol. Enghreifftiau o rai sylwadau a gafwyd pan ofynnwyd 'beth oedd y rhan orau?':

conference, which also attracted 8 sponsors from the private and education sectors, covering a significant portion of event costs.

Feedback from attendees was overwhelmingly positive, delegates left inspired, felt the day provided value for their time and everyone who completed feedback said they would recommend future events from the programme. Examples of some comments received when asked 'what was the best part?':

"Roedd y cynnwys a ddarparwyd gan y siaradwyr gwadd yn ddefnyddiol ac yn berthnasol i'r heriau presennol ym maes ymarfer clinigol. Dyna a'i wnaeth yn ddigwyddiad mor fuddiol. Roedd y siaradwyr yn wych!"

"The content provided by the guest speakers was useful and relevant to the current challenges in clinical practice. That's what made it such a worthwhile event.

"Rhai datblygiadau realistig a phrosiectau cyfredol sy'n helpu i ehangu'r wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd yn y byd delweddu"

"Some realistic advancements and current projects that help expand the knowledge of what is happening in the imaging world"

"Wedi mwynhau heddiw yn fawr iawn ac wedi rhoi llawer i ni feddwl amdano! Diolch am ddarparu ystod mor eang o siaradwyr!"

"Really enjoyed today and it provided lots of food for thought! Thank you for providing such a range of speakers!"

"Roedd wedi'i drefnu'n dda, yn berthnasol ac yn rhedeg yn dda, gyda llawer o siaradwyr diddorol. Diolch."

"It was really well organised, relevant and had a good pace, with lots of interesting speakers. Thank you"

"Y bobl. Anhygoel gweld cynifer ohonynt o'r gymuned Ddelweddu yma heddiw. Falch o fod yn rhan ohoni."

"The people. Amazing to see so many from the Imaging community here today. Proud to be a part of it."

Daeth y gynhadledd i ben gyda dathliad o 'sêr delweddu' ledled Cymru – roedd y rhaglen yn falch iawn o weld enwebeion o ystod eang o grwpiau staff! Roedd yn braf rhannu straeon am unigolion yn mynd y tu hwnt i'r disgwyl i gleifion, gan gydnabod a dathlu eu cyfraniad i'r gwasanaeth.

The conference ended with a celebration of 'imaging stars' across Wales – the programme were delighted to see nominees from a wide range of staff groups! It was great to share stories of individuals going above and beyond for patients, recognising and celebrating their contribution to the service.







## Newyddion am y Rhaglen

Uchafbwyntiau allweddol eraill o Chwarter 3:

- **Mae ein Harweinwyr Clinigol newydd wrthi'n setlo'n dda yn adolygu'r llwybrau gorau posibl ac yn cwrdd â'r holl Gyfarwyddwyr Clinigol Radioleg ledled Cymru.**
- **Mae gwaith ar y gweill i gychwyn prosiect i gefnogi Gweithlu Clinigwyr y Fron yng Nghymru – bydd mwy o wybodaeth am hyn yn y rhifyn nesaf!**

## Programme News

Other key highlights from Quarter 3:

- **Our new Clinical Leads are settling in well currently reviewing optimal pathways and getting to meet all the Radiology Clinical Directors across Wales.**
- **Work is underway to initiate a project to support the Breast Clinician Workforce in Wales – more on this in the next edition!**

## Gwneud eich rhan!

**Gwefan:** Rhaglen Delweddu Genedlaethol - GIG Cymru Gweithrediaeth

Os oes arnoch angen cysylltu ag aelod o dîm y Rhaglen Delweddu Genedlaethol, e-bostiwch: NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

**Rhifyn nesaf – Mawrth 2023!**

## Get involved!

**Website:** National Imaging Programme - NHS Wales Executive

If you need to contact a member of the National Imaging Programme team, please email: NHSWHC.National.Imaging.Programme@wales.nhs.uk

**Next edition – March 2023!**

NHS Wales Health Collaborative | 1st Floor, River House, Ynys Bridge Court, Gwaelod y Garth, Cardiff, CF15 9SS United Kingdom

Unsubscribe helen.james13@wales.nhs.uk

Update Profile |Constant Contact Data Notice

Sent bynhswhc.commsteam@communications.wales.nhs.ukpowered by

Constant Contact

Try email marketing for free today!